MonLife TREFTADAETH HERITAGE

monmouthshire sir fynwy



Credydau Llun i Maxine Howells

# Cylchlythyr

## Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed

**MAI 2025**

MonLife TREFTADAETH HERITAGE

monmouthshire sir fynwy

## Cyflwyniad

Rydym wrth ein bodd yn rhannu a chi rai diweddariadau a datblygiadau cyffrous o Gastell a Pharc Gwledig Cil-y-coed, gyda'r bwriad i barhau i ddarparu profiad unigryw a chyfoethog.

# Tabl Cynnwys:


**Tudalen 1** .......... Cynnydd o ran yr Adnewyddu a'r Adfer

**Tudalen 2** .......... Digwyddiadau a Gweithgareddau

**Tudalen 3** .......... Digwyddiadau i ddod

**Tudalen 5** .......... Cynaliadwyedd Amgylcheddol

**Tudalen 6** .......... Cefnogwch ni gyda'n cyfleoedd gwirfoddoli

**Tudalen 7** .......... Sylwadau i gloi

# Cynnydd o ran Adnewyddu ac Adfer

Mae ein hymdrechion parhaus i warchod a gwella Castell Cil-y-coed yn camu ymlaen yn sylweddol. Mae'r prosiect adfer nid yn unig yn cadw swyn hanesyddol y castell ond hefyd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy a bywiog i genedlaethau i ddod.

Mae waliau'r Castell yn parhau i gael eu hadfer gan Treasure and Son, cwmni adeiladu sy'n arbenigo mewn adfer adeiladau rhestredig fel y castell. Eleni fe wnaethant gwblhau 5ed cam waliau'r castell a byddant yn dechrau ar y 6ed cam ym mis Mawrth eleni.



# Digwyddiadau a Gweithgareddau

Eleni bydd y castell yn cynnal ystod wych o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan adeiladu ar dymor llwyddiannus y llynedd, wedi'u teilwra i bob oedran a diddordeb. Mae rhai digwyddiadau eleni yn cynnwys 'Adventure Cinema' sy'n darparu profiad sinema awyr agored; Shakespeare on the Castle Lawn yn cynnig cynyrchiadau theatr awyr agored; dwy sioe geir undydd ac wrth gwrs ymweliad blynyddol gŵyl 'Dubs at the Castle' sy'n hynod boblogaidd. O 'Street Food Circus' ym mis Mai i'r rhai sy'n caru eu bwyd, i'n penwythnos Nosweithiau Haf ym mis Awst, lle bydd Razorlight, Levellers a Squeeze yn rocio'r Parc Gwledig, dylai fod rhywbeth at ddant pawb.




Diolch i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae gennym bellach fflyd wych o feiciau mynydd teuluol ar gael i'w llogi - perffaith ar gyfer archwilio llwybrau hardd y Parc Gwledig. P'un a ydych yn feiciwr profiadol neu'n chwilio am daith hwyliog i'r teulu, mae'n ffordd wych o fwynhau'r awyr agored.

Ac am antur fwy hamddenol, beth am roi cynnig ar ein ricsio? Wedi'i gyflwyno'r llynedd, mae'n caniatáu i un beiciwr fynd â hyd at ddau deithiwr ar daith olygfaol drwy'r parc. Holwch heddiw a darganfyddwch ffordd newydd o brofi natur! Byddwn yn gweithredu

ein llogi beiciau teuluol a llogi ricsio yn ystod y tymor hwn, cysylltwch â'r castell (caldicotcastle@monmouthshire.gov.uk).

Roedd Teithiau Tywys Hanesyddol yn boblogaidd iawn y llynedd, ac roeddent yn llwyddiannus iawn gyda'r mwyafrif wedi'u harchebu'n llawn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu'n gynnar ar gyfer y tymor hwn! Gyda diolch i'n gwirfoddolwyr ymroddedig rydym yn gallu cynnig y profiad hwn.

Hefyd, bydd ein helfa chwilod a'n llwybr natur 'Fforwyr Bach' yn rhedeg am ein trydedd flwyddyn, dan arweiniad ein Ceidwaid neu'n gwirfoddolwyr brwdfrydig. Rydym yn darparu offer i'r plant, bagiau cefn, gwisgoedd a hyd yn oed dillad glaw ar gyfer diwrnod gwlyb.

## Digwyddiadau i ddod

Mae llawer o'n digwyddiadau bellach yn dod yn rhai blynyddol, gan sicrhau ffyniant hirdymor y castell, a darparu digwyddiadau i bobl leol y gallant edrych ymlaen atynt. Mae ein holl ddigwyddiadau i'w gweld ar ein calendr digwyddiadau **YMA** neu drwy sganio'r cod QR isod.

## Diwrnod y Lluoedd Arfog

Ddydd Sadwrn, 28ain Mehefin 2025, bydd Sir Fynwy yn cynnal Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru yng Nghastell a Pharc Gwledig hardd Cil-y-coed.

Mae hwn yn ddigwyddiad sy'n rhoi cyfle i ddangos cefnogaeth i'r dynion a'r menywod sy'n ffurfio cymuned y Lluoedd Arfog: o bersonél sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, gan gynnwys milwyr wrth gefn, i deuluoedd Gwasanaeth, cyn-filwyr, a chadetiaid.

Nod y diwrnod yw cynyddu cefnogaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd a dod â'r gymuned at ei gilydd i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog mewn digwyddiad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, sy'n rhad ac am ddim i fynychu, gyda gorymdeithiau, arddangosfeydd milwrol, a gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ddysgu am rôl a chyfraniadau'r lluoedd arfog, gan feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach.




Bydd y diwrnod yn agor i'r cyhoedd o 11am ac yn rhedeg tan 4pm lle bydd arddangosfeydd ac arddangosiadau ar draws y safle.

Trefnwyd y digwyddiad undydd mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr yn y Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu. Bydd yn ddiwrnod gwefreiddiol, yn cynnwys amrywiol asedau o'r Lluoedd Arfog (mae'r rhain yn debygol o gynnwys, ond heb eu cadarnhau eto, awyrennau'n hedfan heibio, disgynfa parasiwtiau, cerbydau milwrol, galluoedd y dyfodol, tanc plymio'r Llynges, ac ati) a Gwasanaethau Golau Glas, adloniant teuluol, cerddoriaeth fyw, arddangosfeydd, bwyd a diod, a llawer o dimau ymgysylltu o wahanol gatrawdau sy'n cynrychioli pob rhan o'r lluoedd arfog. Archebwch eich tocynnau am ddim [YMA].

# Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Wedi ymrwymo i gyfrifoldeb amgylcheddol, rydym yn gweithredu arferion ecogyfeillgar yn y parc. O fentrau lleihau gwastraff i hyrwyddo bioamrywiaeth, ein nod yw creu amgylchedd gwyrddach a mwy cynaliadwy i bawb.

Ym mis Ebrill y llynedd, newidiodd y gyfraith yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y bydd gwastraff / ailgylchu yn cael ei gasglu. Rydym wedi cysylltu â'n holl gwmnïau digwyddiadau ymweld, i sicrhau eu bod yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith newydd.



caldicotcastle@monmouthshire.gov.uk 01291 420241

# Cefnogwch ni gyda'n cyfleoedd gwirfoddoli

Mae ein hymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr diweddar wedi bod yn llwyddiannus iawn – mae Coleg Gwent yn ymweld â ni eto eleni, gyda'u myfyrwyr defnyddiol yn gwneud tasgau fel casglu sbwriel, garddio a phaentio. Rydym hefyd wedi cael chwe gwirfoddolwr newydd yn ymuno â'r tîm, o dan gyfleoedd Warden y Parc a Chynorthwyydd Ystafell De. Maent wedi bod yn darparu cefnogaeth werthfawr i'n tîm prysur.

Beth am ddod yn rhan weithgar o gymuned Castell Cil-y-coed drwy archwilio ein dewisiadau gwirfoddoli. Mae eich cefnogaeth yn allweddol wrth gadw'r perl hanesyddol hwn a sicrhau ei hygyrchedd am flynyddoedd i ddod.

Byddwch yn ymuno â thîm gwirfoddol sydd wedi tyfu o 4 i 10 o wirfoddolwyr gweithredol y llynedd, gan gwmpasu ystod amrywiol o gyfleoedd, o redeg teithiau tywys i arddio a llawer mwy.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda ni a/neu os hoffech ymuno, e-bostiwch Alison Smith - **alisonsmith2@monmouthshire.gov.uk**.



**Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus a'ch angerdd dros Gastell a Pharc Gwledig Cil-y-coed. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i wneud y tirnod hwn yn destun balchder i'n cymuned.**

